## RHYBUDD o Benderfyniadau Cyfarfod Y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, ddydd Llun, 17 Rhagfyr, 2018

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5:00pm ar ddydd Iau, 20 Rhagfyr, 2018. Rhaid cyflwyno unrhyw geisiadau i alw i mewn unrhyw benderfyniad i'r Prif Weithredwr erbyn dim hwyrach na 5:00pm ar ddydd Llun, 31 Rhagfyr, 2018. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) ar ddydd Mercher, 2 Ionawr, 2019.

**Presennol**: Y Cynghorwyr R Dew, Llinos Medi Huws (Cadeirydd), R. Meirion Jones, R G Parry OBE, FRAgS, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams, Alun W Mummery, Carwyn Jones a Robin Williams

**Hefyd yn bresennol**: Y Cynghorwyr Glyn Haynes, Aled M. Jones, G.O. Jones, Shaun Redmond

**Ymddiheuriadau**: Dim

(10:00 y.b. tan 11:30 y.b.)

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **3 Cofnodion**<br>Amherthnasol |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cymeradwyo cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 12 Tachwedd a 26 Tachwedd, 2018 fel rhai cywir.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Amherthnasol** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith**<br>Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith wedi ei ddiweddaru am y cyfnod Ionawr, 2019 i Awst, 2019 gyda'r newidiadau a amlinellwyd yn y cyfarfod.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cryfhau atebolrwydd a threfniadau cynllunio ymlaen llaw.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| | |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **5 Ffioedd a Thaliadau 2019/20**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cymeradwyo'r ffioedd a thaliadau ar gyfer 2019/20 fel y'u hamlinellir yn y llyfryn atodwyd i'r adroddiad ac eithrio taliadau am brydau ysgol sy'n destun ymgynghoriad tan ddiwedd mis Rhagfyr, 2018.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Gosod ffioedd a thaliadau ar gyfer 2019/20.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **6 Strategaeth Rhanbarthol Digartrefedd**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cymeradwyo'r Strategaeth Digartrefedd Rhanbarthol a'r Cynllun Gwaith Lleol.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cymeradwyo Strategaeth Digartrefedd yn unol â gofyn statudol** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **7 Adroddiad Cynnydd ar y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau bod y Pwyllgor Gwaith yn fodlon gyda'r canlynol –**<br>• **Y camau a gymerwyd i weithredu'r Cynllun Gwella Gwasanaeth a chyflymder y cynnydd.**<br>• **Cyflymder y cynnydd a'r gwelliannau a wnaed hyd yma yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.** |

| | |
|---|---|
| | |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Monitro cynnydd y gwelliannau yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | 8 **Sefydlu Bwrdd Cymeradwyo Draeniad Cynaliadwy**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo Dros Dro |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br>• **Fod gweithredu cyfrifioldebau statudol y Corff Cymeradwyo SDCau (CCS) yn cael eu priodoli i'r Gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo.**<br>• **Fod cyfrifoldeb a phwerau'r CCS dan Atodlen 3 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yn cael eu dirprwyo i'r Pennaeth Gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo gyda'r hawl i ddirprwyo ymhellach fel sy'n briodol.**<br>• **Fod yr hawl i sefydlu cyfundrefn benderfynu ceisiadau yn unol â'r Ddeddfwriareth ac Arweiniad Statudol yn cael ei ddirprwyo i'r Pennaeth Gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo a'r Pennaeth Gwasanaeth Rheoleiddio ac Economaidd.**<br>• **Fod incwm a gynhyrchir o weinyddu'r CCS yn cael ei glustnodi ar gyfer gweithredu dyletswyddau'r CCS.**<br>• **Fod yr hawl i greu strwythur a llenwi swyddi er mwyn gweithredu dyletswyddau'r CCS yn cael ei ddirprwyo i'r Deilydd Portffolio a'r Pennaeth Gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo.**<br>• **Fod yr hawl i addasu'r Cynllun Dirprwyo yn y Cyfansoddiad i adlewyrchu'r penderfyniad yma yn** |

| | |
|---|---|
| | **cael ei ddirprwyo i'r Swyddog Monitro.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cymeradwyo cyfundrefn i ymdrin â swyddogaethau'r Cyngor fel Corff Cymeradwyo ceisiadau Safonau Cenedlaethaol Draenio Cynaliadwy yn unol â gofynion statudol.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **9 Adroddiad ar Wrthwynebiadau i Ysgol Gynradd newydd yn lle Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir a Chymeradwyaeth y Cynnig Gwreiddiol**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Dysgu |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd -**<br><br>• **Cymeradwyo'r cynnig gwreiddiol sef - cynnig peidio â chefnogi Ysgol Bodffordd, Bodffordd, Ynys Môn, LL77 7LZ ac Ysgol Corn Hir, Llangefni, Ynys Môn, LL77 7JB sydd ar hyn o bryd yn cael eu cynnal gan Gyngor Sir Ynys Môn a sefydlu ysgol gynradd cymunedol cyfrwng Cymraeg newydd i'w chynnal gan Gyngor Sir Ynys Môn ar safle ysgol newydd ar dir ger stad Bryn Meurig, Llangefni, LL77 7JB ar gyfer bechgyn a merched 3-11 oed.**<br>• **Awdurdodi Swyddogion i barhau gyda'r broses o adeiladu ysgol gynradd newydd ar dir ger stad Bryn Meurig (yn amodol ar i'r safle fod yn addas)** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Bwrw ymlaen gyda'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

## EITEM GYFRINACHOL

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **11 Y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion - Achos Busnes Amlinellol - Ehangu Ysgol y Graig a chau Ysgol Talwrn**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Dysgu |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cymeradwyo'r canlynol -**<br>• **Yr Achos Strategol Amlinellol a'r Achos Busnes Amlinellol cyfunedig (ASA/ABA) ar gyfer ehangu Ysgol y Graig drwy adeiladu bloc Cyfnod Sylfaen newydd a chau Ysgol Talwrn.**<br>• **Cyflwyno'r ASA/ABA i Lywodraeth Cymru, a**<br>• **Neilltuo derbyniadau cyfalaf i ariannu adeiladu'r adeilad Cyfnod Sylfaen newydd yn amodol ar i ddim problemau godi gyda gwerthu'r safle(oedd).** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Bwrw ymlaen gyda'r Rhaglen Moderneiddio o Ysgolion** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

## EITEM GYFRINACHOL

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **13 Datblygu Safle i Sipsiwn a Theithwyr, Star**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cymeradwyo'r canlynol –**<br>• **Caffaeliad y tir yn Star ar gyfer y safle.**<br>• **Y costau cyllideb cyfalaf ynghlwm â'r prosiect o ddarparu'r safle stopio dros dro yn Star.**<br>• **Y gwaith tendro ar gyfer datblygiad y safle yn Star yn seiliedig ar yr amcanbrisiau a ddarparwyd a/neu o ganlyniad i ddefnyddio fframweithiau eraill.** |

| | |
|---|---|
| | • **Yr amserlen sydd wedi'i hamlinellu ar gyfer datblygu'r safle yn Star.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Er mwyn datblygu safle aros dros dro i Sipsiwn a Theithwyr yn unol â gofynion statudol** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |